GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

01 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015

www.mawwfire.gov.uk

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n rhychwantu'r cyfnod o Ebrill 2014 i Fawrth 2015. Bwriad yr Adroddiad hwn yw rhoi darlun o'r hyn rydym ni wedi gwneud i hybu cydraddoldeb ac i gyflawni ein dyletswyddau statudol, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'n Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru.

I fi, mae cydraddoldeb yn seiliedig ar yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â thegwch, urddas a pharch, ac mae'n faes yr wyf yn gwbl ymrwymedig iddo. Rydw i'n ddigon ffodus i weithio gyda chydweithwyr sy'n rhannu'r ymrwymiad hwnnw ac rydym yn gosod cydraddoldeb wrth galon popeth a wnawn. Rydym yn ymfalchïo mewn ymgysylltu â'n cymunedau lleol, er mwyn ennyn yr atborth gwerthfawr sydd ei angen arnom i barhau i addasu a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn. Yn ogystal, rydym yn annog ein staff i fod yn agored ac yn onest gyda'u barnau am y Gwasanaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn gyflogwr o ddewis.

Er gwaethaf y cynnydd a wnaed gennym ers cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb cyntaf, rydym ni fel Gwasanaeth yn cydnabod bod yna welliannau i'w gwneud eto ac felly, mae'r Cynllun hwn yn traethu sut fyddwn yn parhau i hybu cydraddoldeb dros y flwyddyn sydd i ddod.

Chris Davies
Prif Swyddog Tân

Er mwyn gweld sut rydym ni'n gweithio tuag at wneud cydraddoldeb yn beth real o fewn y Gwasanaeth Tân yng Nghymru, ynghyd â Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Gogledd Cymru, edrychwch ar ein Cynllun Strategol, ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynllun Gwella, os gwelwch yn dda. Gellir dod o hyd i'r rhain, ynghyd â gwybodaeth arall, ar ein gwefan: mawwfire.gov.uk

Cynnwys

	Tudalen(nau)
Cyflwyniad	4
Pwy ydym ni	**4 - 5**
Ein Gwerthoedd Craidd	**6**
Lle rydym ni	**7**
Dyletswydd Gyffredinol	8
Dyletswyddau Penodol:	8 -
Rheoliadau 3 a 4	8 - 9
Rheoliadau 5 a 6	9 - 12
Rheoliadau 7 ac 8	12 - 13
Rheoliad 9	13 - 14
Rheoliad 10	14
Rheoliadau 11 a 12	15
Rheoliadau 13 a 14	15
Rheoliad 18	15 - 16
Beth sydd o'n blaenau	16
Atodiadau:	
Data Staff – Cyffredinol	
Data Staff – yn ôl lefel Rheolwyr	
Data Recriwtio Staff Cymorth	
Data Recriwtio Ar Alwad	
Data Dyrchafiadau	
Data Trosglwyddiadau	
Data Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC)	
Data Ymgysylltu / Ymgynghori	
Data Ymateb i Ddigwyddiadau	

4

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhychwantu'r flwyddyn ariannol o Ebrill 2014 i Fawrth 2015, a chyflwynir ef yn unol â'n gofynion adrodd statudol, fel y traethwyd gan reoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Bydd yr adroddiad hwn yn ymddwyn fel man cychwyn ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddata, yn ogystal â'r hyn mae'r Gwasanaeth wedi'i gyflawni yn ystod y ffrâm amser. Er mwyn bod yn hawdd ei darllen, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r Ddyletswydd Gyffredinol a'r Dyletswyddau Penodol fel penawdau, gyda'r data'n ymddangos yn yr atodiadau.

Beth mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn golygu i GTACGC?

Mae'r Gwasanaeth yn gweld Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel materion busnes allweddol, a'r prif yriannau busnes i'r Gwasanaeth i ardystio strategaethau perthynol i amrywiaeth yw:

- Rheoli risg ac enw da
- Gwella perfformiad unigolion a'r busnes
- Datblygu diwylliant creadigol ac arloesol
- Cwrdd ag anghenion ein cymunedau
- Denu, cadw a datblygu gweithwyr
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth

Mae cyfleoedd cyfartal yn cynnwys ymagwedd y Gwasanaeth, nid yn unig at ddarparu gwasanaethau, ond mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau a thrwy sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn cael eu craffu'n gyson, a bod risgiau cydraddoldeb yn cael eu hasesu, i ddarparu sefydliad sy'n ymdrechu i roi diwedd ar wahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn unrhyw grŵp (grwpiau) neu unigolion.

Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth

Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig (Cynghorwyr Sir), sy'n cynrychioli Wardiau unigol o fewn y 6 Awdurdod Unedol cyfansoddol, sydd wedi eu cynnwys yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yr Awdurdodau Unedol yw:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir Benfro
- Powys
- Abertawe

5

Mae’r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ar ddiogelwch i’r cyhoedd, rhaglenni atal a diogelu ac ymateb brys ar gyfer ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae’r sefydliad yn cyflogi dros 1,300 o staff oddi fewn i amrywiol gategorïau cyflogaeth h.y. Staff Gweithredol, Canolfan Reoli a Staff Cymorth, mae’n cwmpasu tua 4,500 o filltiroedd sgwâr – bron i ddwy ran o dair o ehangdir Cymru, ac mae’n gwasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau oddi fewn i’w ardaloedd arfordirol, trefol a gwledig.



Rôl yr Awdurdod Tân yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân, yn unol â’r ddeddfwriaeth a’r rheoliadau priodol, yn enwedig Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004, Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 01 Hydref 2006.
- Cytuno ar Gynlluniau Gwella Blynyddol, cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyfraniadau gan y Cynghorau cyfansoddol.
- Monitro’r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, yn cynnwys penderfyniadau am unrhyw gyfraniadau ychwanegol.

Mae’r Prif Swyddog Tân yn bennaeth ar Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae ganddo reolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol am y Gwasanaeth, ac ef yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

6

Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân

Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth Tân (isod) yn ein tywys ni fel sefydliad, cyflogwr a darparwr gwasanaethau, o ran yr hyn rydym ni'n ei wneud a sut rydym ni'n ei wneud. Mae'r Gwerthoedd Craidd yma'n seiliedig ar gyfres o werthoedd sy'n ofynnol yn Genedlaethol, sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyd a lled Gwasanaethau Tân ac Achub yn y DU:

Gwasanaeth i'r Cymunedau

Rydym yn gwerthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned trwy:

- Weithio gyda'r grwpiau i gyd i leihau risgiau
- Trin pawb yn deg a gyda pharch
- Bod yn atebol i'r rhai hynny a wasanaethwn
- Ymdrechu i ragori ym mhopeth a wnawn

Pobl

Rydym yn gwerthfawrogi ein gweithwyr trwy ymarfer a hybu:

- Tegwch a pharch
- Cydnabod rhinweddau
- Gonestrwydd, cywirdeb a chyd-ymddiriedaeth
- Datblygiad personol
- Gwaith cydweithredol a chynhwysol

Amrywiaeth

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn y gwasanaeth a'r gymuned trwy:

- Drin pawb yn deg a gyda pharch
- Darparu amrywiol ddatrysiadau ar gyfer gwahanol anghenion a disgwyliadau
- Hybu cyfleoedd cyfartal o ran cyflogaeth a dilyniant o fewn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a gwahaniaethu

Gwella

Rydym yn gwerthfawrogi gwelliant ar bob lefel o'r Gwasanaeth trwy:

- Dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad
- Bod yn feddwl agored
- Ystyried beirniadaeth yn ystyriol
- Dysgu o'n profiadau
- Ymgynghori ag eraill

Lle rydym ni

Mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Gwasanaeth yn un o'r ffyrdd rydym yn mynd ati i ddangos i ba raddau rydym ni'n cwrdd â'n rhwymedigaethau i gydnabod amrywiaeth a hybu cydraddoldeb. Mae'n adlewyrchu'r gwaith rydym yn ei wneud yn ein cymunedau, yn ogystal ag adrodd am ddata / gwybodaeth allweddol ar gydraddoldeb.

Tra bod y Gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gofleidio cydraddoldeb a'i symud yn ei flaen, rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud ac fe fyddwn yn parhau i anelu at ragoriaeth.

Fel cyflogwr, ein nod yw datblygu gweithlu amrywiol a sicrhau bod ein diwylliant yn un lle mae pobl yn teimlo y gallant fod ynddyn nhw eu hunain tra yn y gweithle.

Fel darparwr gwasanaethau, ein nod yw darparu'r gwasanaethau gorau posib, er mwyn cwrdd ag anghenion ein gwahanol gwsmeriaid, ac i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch, yn rhydd o unrhyw fath o wahaniaethu neu ragfarn.

8

Deddf Cydraddoldeb (2010) - Dyletswydd Gyffredinol

Mae'r gweithredoedd sy'n ein cynorthwyo i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Fe wnaethom gwblhau rhaglen ar draws y gwasanaeth o Hyfforddiant Urddas yn y Gweithle, a oedd yn amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan ein gweithwyr o ran eu hymddygiad yn y gweithle ac yn eu cymunedau.

- Fe wnaethom ehangu eto ar ein defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i ymrwymiad y Gwasanaeth i'r agenda Cydraddoldeb ac i ddigwyddiadau penodol yn y Calendr Amrywiaeth.

- Fe wnaethom ddarparu'r Bwrdd Gweithredol â sesiwn friffio fanwl ar faterion yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, nawr ac yn y dyfodol agos.

- Fe wnaethom gwblhau'r rhaglen Hyfforddi Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y personél priodol i gyd.

- Fe wnaethom sicrhau cyllid i benodi Swyddog Cam-drin Domestig, a fydd yn paratoi rhaglen hyfforddi ar draws y Gwasanaeth ac yn ei rhoi ar waith, er mwyn creu ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â Cham-drin Domestig.

- Fe wnaethom barhau i weithio'n agos gyda Stonewall Cymru, i gyflwyno hyfforddiant yn y gweithle ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, i hybu ein hunain fel cyflogwr o ddewis i aelodau o'r gymuned LGBT ac i wella ein polisïau a'n harferion gwaith, i helpu ein gweithwyr i fod ynddyn nhw eu hunain yn y gweithle.

- Fe wnaethom barhau i ddarganfod ffyrdd newydd y gall y Gwasanaeth hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn fewnol, er mwyn bod ein gweithwyr presennol yn medru uniaethu'n llwyr â'r sefydliad, a theimlo'n gysurus oddi fewn iddo, fel amgylchedd gwaith.

Deddf Cydraddoldeb (2010) - Dyletswyddau Penodol i Gymru

Yn ogystal â'r gweithredoedd a restrwyd uchod, mae'r adran hon yn dangos beth rydym ni wedi cyflawni a beth rydym yn bwriadu gwneud, mewn perthynas â'r Dyletswyddau Penodol i Gymru; ac mae'n cyfannu, yn hytrach nag ailadrodd, yr wybodaeth yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) cynhwysfawr.

Medrwch ddod o hyd i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar: mawwfire.gov.uk neu gellir gofyn am gopi papur oddi wrth y cyfeiriad ar y clawr cefn.

Rheoliad 3: Gosod Amcanion Cydraddoldeb

Dylid prif ffrydio amcanion cydraddoldeb fel bod yr holl wasanaethau ac adrannau'n cyfrannu at wella cydraddoldeb a'u bod yn rheoli eu hymrwymiadau cydraddoldeb fel rhan annatod o'u hymrwymiadau gwella cyffredinol a gwasanaeth y cwsmer.

Rheoliad 4: Paratoi ac Adolygu Amcanion Cydraddoldeb

Mae gan Awdurdodau ddyletswydd i gasglu amryw o wybodaeth am gydraddoldeb, er mwyn cyfrannu at y sylfaen tystiolaeth hwn.

Amcan 1 y CCS: Monitro'r Amcanion Cydraddoldeb a osodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adrodd am gynnydd yn flynyddol (Perchenogaeth - Ymgynghorydd Cydraddoldeb trwy gyfrwng cynlluniau busnes adrannol, gyda chynnydd cyffredinol yn cael ei adolygu'n flynyddol ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân).

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom gynnal adolygiad systematig o bob un o'r systemau casglu gwybodaeth ac fe wnaethom sicrhau bod yr holl ddata perthnasol sy'n ymwneud â'r Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu casglu a'u monitro, fel y bo'n briodol.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu cydberthnasau gyda chyfeillion allweddol a mudiadau trydydd sector, fel y medrwn dderbyn atborth yn gyson, sy'n ein galluogi ni i werthuso a diwygio ein hamcanion cydraddoldeb, a'r ffyrdd rydym yn darparu ein gwasanaethau, fel y bo'n briodol.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Cynnwys amcanion gwella yn y broses Adolygu Datblygiad Unigol (ADU) ar gyfer staff newydd.

Cyflwyno mecanwaith monitro cadarn ar gyfer yr amcanion cydraddoldeb sydd wedi eu cynnwys yn y Cynlluniau Cyfarwyddiaeth a Gorsaf, a phrif ffrydio adrodd trwy'r gweithgor Strategol.

Cadw ffocws blynyddol ar amcanion Cydraddoldeb, trwy gynnwys y fath amcanion yng nghynlluniau busnes yr Ardaloedd Rheoli a'r Adrannau, ar sail flynyddol.

Rheoliad 5: Darpariaethau Ymgysylltu

Fel rhan o gasglu'r wybodaeth berthnasol, bydd angen i Awdurdod i ymgysylltu â'r bobl briodol wrth asesu ei waith mewn perthynas â chwrdd â thri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Amcan 2 y CCS: Llunio strategaeth ar gyfer ymgynghori a chynnwys budd-ddeiliaid, y cyhoedd a Staff a effeithir gan ein polisïau a'n gweithdrefnau darparu gwasanaeth (Perchenogaeth – bydd blaen swyddog yn cael ei enwi i fod yn gyfrifol am y strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu ac am sefydlu grŵp cyfeillion allweddol / Fforymau Ymgynghori)

<u>Amcan 3 y CCS</u>: Dadansoddi'r ffordd y casglwyd y data Darparu Gwasanaeth a gasglwyd gan yr Awdurdod a'r ffordd y defnyddiwyd ef i gyfarwyddo'r Gwasanaeth a Ddarperir yn y dyfodol a gwelliannau (Perchenogaeth – mae'r cyfrifoldeb am gasglu'r data Darparu Gwasanaeth perthnasol yn gorwedd gyda Diogelwch Rhag Tân a Gweithrediadau)

<u>Amcan 4 y CCS</u>: Sicrhau bod yr Awdurdod yn craffu'r ffordd mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd ar hyn o bryd, a Sicrwydd Ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn, a'i fod yn berthnasol i'r gynulleidfa darged (Perchenogaeth – bydd yr wybodaeth a gasglwyd yn cael ei graffu gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb a'r Rheolwr Diogelwch yn y Gymuned, a byddant yn gweithredu yn unol â hynny)

<u>Amcan 5 y CCS</u>: Archwilio'r wybodaeth mae'r Awdurdod yn ei gasglu a'i rannu gydag asiantaethau eraill. Sicrhau bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â throseddau casineb, sy'n effeithio ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig, ar gael ar gyfer y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol (Perchenogaeth – y Rheolwr Diogelwch yn y Gymuned a'r Rheolwr Lleihau Llosgi Bwriadol)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom lunio Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'i rhoi ar waith, fel modd o gaffael gwybodaeth am gydraddoldeb trwy gyfrwng gwasanaethau blaenweithgar, megis Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref a gweithgareddau ymgysylltu â budd-ddeiliaid.

Fe wnaethom wella'r mecanweithiau casglu data ac adrodd, o ran y Nodweddion Gwarchodedig, ar gyfer pob un o'n gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a'n gweithgareddau atal yn y gymuned.

Fe wnaethom fynychu amryw o ddigwyddiadau, yn cynnwys Pride Abertawe, Sparkle Abertawe a'r digwyddiad Elimin8 Race H8.

Fe wnaethom ymgynghori ynghylch y Cynllun Strategol ledled ardal y Gwasanaeth.

Fe wnaethom sefydlu protocolau rhannu gwybodaeth priodol gydag asiantaethau sy'n bartneriaid.

Fe wnaethom barhau i gefnogi a mynychu cyfarfodydd grwpiau, megis Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe a Grŵp Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin, i enwi ond ychydig, tra'n sefydlu cysylltiadau newydd gyda grwpiau cymunedol a mudiadau Trydydd Sector hefyd, megis Cymorth i Ddioddefwyr, Mind Cymru, grwpiau Celcwyr, Cymorth i Fenywod a Fforymau Dros 50.

11

Fe wnaethom barhau i annog Grwpiau Cymunedol a Gwasanaethau Cyhoeddus / Asiantaethau Trydydd Sector eraill i ddefnyddio'r cyfleusterau cyfarfod sydd ar gael gennym yn ein Gorsafoedd Tân, yn rhad ac am ddim. Mae'r grwpiau sydd wedi manteisio ar y cyfleuster hwn yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys Mencap, Cymunedau yn Gyntaf, y Gymdeithas Alzheimer's, Sefydliad y Merched a Heddlu Dyfed Powys.

Fe wnaethom gyflwyno i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ac fe wnaethom gyrraedd safle a oedd 34 lle'n uwch na'n cyflwyniad ni yn 2012.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Gwerthuso effeithiolrwydd y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a roddwyd ar waith yn Rhagfyr 2014, a gwneud newidiadau i'r ffurflen / proses yn ôl yr angen.

Defnyddio'r data hwn i wella gallu'r Gwasanaeth i ddarganfod tueddiadau ac, o ganlyniad, i fynd i'r afael ag anghenion y rhai hynny sy'n derbyn darpariaethau'r Gwasanaeth.

Mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Tân eraill yng Nghymru, a gyda mewnbwn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, creu cronfa ddata Cymru gyfan o unigolion a grwpiau, er dibenion ymgysylltu.

Darganfod ffyrdd eraill o deilwrio defnyddiau Diogelwch yn y Gymuned, a phrosesau i ddwyn i ystyriaeth anghenion y rhai hynny sy'n dod o fewn y Nodweddion Gwarchodedig, yn ogystal â'r rhai hynny nad sy'n dod o fewn iddynt.

Gwella'r ymgynghori mewnol, er mwyn galluogi gweithwyr sy'n dod o fewn y Nodweddion Gwarchodedig i ddylanwadu a bod yn rhan o ystyriaethau a syniadau'r Gwasanaeth wrth symud ymlaen, a hefyd annog perchenogaeth / cyfrifoldeb dros dargedau ac amcanion Cydraddoldeb lleol.

Datblygu ymhellach ein gwaith partneriaeth gyda Hyrwyddwyr Cymunedol, grŵp Anghenion Arbennig / Anabledd, er mwyn cynorthwyo i ddarparu Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref yn y gymuned.

Rheoliad 6: Hygyrchedd gwybodaeth wedi'i gyhoeddi

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol i sicrhau bod unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a gyhoeddir, i ddiwallu ei ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol neu benodol, ar ffurf sy'n hygyrch i bobl o grwpiau gwarchodedig.

Amcan 6 y CCS: Bydd yr Awdurdod yn gofalu bod unrhyw ddogfennau neu wybodaeth ar gael ar ffurfiau hygyrch pan bod eu hangen ar bobl sy'n rhannu un neu fwy o Nodweddion Gwarchodedig (Perchenogaeth – bydd cyhoeddi mewn fformatau amgen, cyfieithu a mynediad at y we yn gyfrifoldeb i'r adran Cyfathrebu Corfforaethol, Swyddog yr Iaith Gymraeg, Diogelwch Rhag Tân a TGCh)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom geisio atborth oddi wrth ein partneriaid cymunedol ar sut allem ni wella'r cyfathrebu trwy gyfrwng Grŵp Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin neu trwy ein Cydlynydd Trydydd Sector. Mae hyn wedi arwain at waith Diogelwch yn y Gymuned ychwanegol gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Fe wnaethom gynyddu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu ein presenoldeb mewn digwyddiadau, megis lansiad ymgyrch Poster 'Parch' Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin, ac i roi cefnogaeth y Gwasanaeth i Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, Diwrnod Pobl Hŷn, Diwrnod Rhyngwladol Yn Erbyn Homoffobia, Biffobia a Thrawsffobia, Mis Hanes LGBT ac Wythnos Diogelwch Plant, i enwi ond ychydig.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Parhau i ymestyn ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel dull o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Datblygu tudalennau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewnol ac allanol y Gwasanaeth, i hybu gwaith y Gwasanaeth yn y maes hwn.

Comisiynu cwmni i adolygu hygyrchedd gwefan y Gwasanaeth i'r rhai sydd â nam ar eu golwg, a gweithredu ynghylch unrhyw argymhellion a wnaed.

Rheoliad 7: Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol

Mae'n rhaid i awdurdod i roi trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau ei fod yn adnabod yr wybodaeth berthnasol sydd ganddo a'i fod yn adnabod ac yn casglu'r wybodaeth berthnasol nad sydd ganddo.

Amcanion y CCS: Gweler Rheoliad 5 uchod (Amcanion wedi eu rhannu rhwng Rheoliad 5 a 7)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom weithio gyda GTA eraill yng Nghymru, trwy gyfrwng Grŵp Lleihau Risg yn y Gymuned Cymru Gyfan, i baratoi dull o gasglu data wrth gynnal Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Gymuned a gweithgareddau Diogelwch yn y Gymuned eraill, a'u rhoi ar waith.

13

Fe wnaethom roi strategaethau ac amcanion ar waith ar draws y Gwasanaeth, i wella'r dull o gasglu data yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Trefnu Adolygiadau Adrannol Unigol, er mwyn dod o hyd i ffyrdd y gall y fath Adrannau gwrdd â'r gofynion o ran casglu data sy'n ymwneud â Chydraddoldeb.

Rheoliad 8: Effaith a monitro polisïau ac arferion

Mae angen cynnal asesiadau pan fod polisi neu arfer yn cael ei gynnig neu ei adolygu. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio busnes, cynigion effeithlonrwydd ac ailstrwythuro staff.

Amcan 7 y CCS: Mae'n rhaid i broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yr Awdurdod i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i gynnal yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (Perchenogaeth – bydd yr holl reolwyr a gweithwyr sydd â chyfrifoldeb am bolisïau, gweithdrefnau a phrosesau yn cynnal yr AEG cychwynnol)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom sicrhau bod Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb allweddol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Fe wnaethom adolygu a diwygio'r ffurflenni Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, yn seiliedig ar atborth defnyddwyr.

Fe wnaethom gyflwyno Hyfforddiant Asesu Effaith ar Gydraddoldeb i 15 o reolwyr canol arall, yn ogystal â chyflwyno cwrs gloywi deddfwriaeth cydraddoldeb cyffredinol i aelodau o'r Bwrdd Gweithredol.

Fe wnaethom roi proses gadarn ar waith i fonitro'r modd mae Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Sicrhau bod unrhyw bersonél sy'n cael eu dyrchafu / trosglwyddo i rôl a fydd yn gofyn iddynt i lenwi'r fath ffurflenni yn derbyn hyfforddiant a chymorth digonol.

Rheoliad 9: Casglu ac adrodd gwybodaeth am gyflogaeth

Mae hyn yn cynnwys data ar recriwtio a chadw, dyrchafiadau, cyfleoedd i hyfforddi, cwynion a chamau disgyblu.

Amcan 8 y CCS: Mae'n rhaid i Awdurdod i gasglu a chyhoeddi, erbyn 31 Mawrth pob blwyddyn, yn cychwyn yn 2013, gwybodaeth yn ôl Nodwedd Warchodedig a'r rhai sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig (Perchenogaeth – staff AD a Hyfforddiant perthynol)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom roi prosesau cadarn yn eu lle, sy'n caniatáu i ddata i gael ei ddarparu sydd wedi ei ddadansoddi yn ôl Nodwedd Warchodedig.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Rhoi mecanweithiau yn eu lle, i sicrhau bod y data sy'n ofynnol yn cael ei gasglu mewn perthynas â'r rhai sy'n cael mynediad at, neu sy'n ceisio cael mynediad at, gyfleoedd i hyfforddi.

Data Anghydfod:

Nid oedd unrhyw brosesau perthynol i anghydfod na disgyblu a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â Nodweddion Gwarchodedig fel ffactor sy'n cyfrannu (mewn bwlïo, aflonyddu, arferion cyflogaeth ayb.), fodd bynnag, bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro'n briodol yn y dyfodol, er mwyn ail-gadarnhau canfyddiad presennol y Gwasanaeth nad yw'r fath faterion yn gysylltiedig i raddau helaeth â'r Nodweddion Gwarchodedig.

Rheoliad 10: Hyfforddi Staff

Mae gofyn i Awdurdodau i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymhlith y gweithwyr ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod gweithdrefnau asesu perfformiad, megis gwerthusiadau personol neu adolygiadau datblygiad personol, yn cael eu defnyddio i ddarganfod ac ymdrin ag anghenion hyfforddi.

Amcan 9 y CCS: Cynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi Cydraddoldeb, er mwyn darganfod y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i gyflawni eu rolau (Perchenogaeth – y Rheolwr Hyfforddiant mewn cydweithrediad â'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom gyflwyno Hyfforddiant Urddas yn y Gweithle i'r holl bersonél o fewn y Gwasanaeth.

Fe wnaethom adolygu'r ffordd mae Hyfforddiant Anwytho'n cael ei gyflwyno i Staff y Ganolfan Reoli a Staff Cymorth, ac fe wnaethom sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer materion yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Urddas yn y Gweithle.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Cyflwyno hyfforddiant Rhagfarn Anymwybodol a/neu Reoli Timau Amrywiol i'n Rheolwyr Arolygol ni.

Cyflwyno rhaglen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb i'r holl bersonél sydd wedi eu lleoli mewn gorsafoedd.

Gwerthuso'r ffordd mae ymrwymiad unigolyn at Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael ei asesu trwy ADC a phrosesau dethol penodol i rôl.

Rheoliadau 11 a 12: Cyflog Cyfartal a Chynlluniau Gweithredu

Mae yna ofyniad hefyd i ystyried yr wybodaeth yma wrth lunio amcanion cydraddoldeb. Yn ogystal, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol i gyhoeddi amcan cydraddoldeb a chynllun gweithredu mewn perthynas ag ymdrin ag unrhyw wahaniaeth yng nghyflog y rhywiau sy'n cael ei ddarganfod neu i gyhoeddi rhesymau pam nad yw wedi gwneud hynny.

Amcan 10 y CCS: Archwilio cyflog oddi fewn i gyflogau ac amodau'r Llyfrau Gwyrdd, Aur a Llwyd, a thraws-dablu amodau nad sydd o natur ariannol, er mwyn sicrhau bod yr amodau a'r Cytundebau Lleol yn deg ac yn gyfiawn i bob rhyw a'r Nodweddion Gwarchodedig eraill (Perchenogaeth – bydd y Rheolwr AD yn gyfrifol am gynnal yr archwiliad hwn ac am sicrhau tegwch a pharedd ar draws pob un o'r amodau gwasanaeth)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom gyflawni pob un o'r gweithredoedd priodol mewn cysylltiad â'r Rheoliad hwn.

Rheoliad 13: Adolygu Trefniadau

Rheoliad 14: Adrodd yn flynyddol am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol

Mae'n rhaid adolygu amcanion cydraddoldeb pob 4 mlynedd fan lleiaf, ac mae'n rhaid adolygu'n gyson agweddau o gydymffurfio â dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

Amcan CCS: Heb ei nodi.

Beth wnaethom ni

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn yn tynnu sylw at amryw o'n llwyddiannau a sialensiau yn y cyfnod amser dan sylw.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Yn ystod Haf 2015 fe fyddwn yn drafftio, ac yn ymgynghori ynghylch, ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 - 2020, gyda golwg ar gyhoeddi'r ddogfen orffenedig tua diwedd y cyfnod adrodd nesaf.

Rheoliad 18: Caffael Cyhoeddus

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn gymwys i unrhyw gaffael, ni waeth beth yw gwerth y contract. Mae'r ddyletswydd benodol yn gymwys pan fod Awdurdod Lleol yn caffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau oddi wrth sefydliadau eraill, ar sail 'cytundeb perthnasol'.

Amcan 11 y CCS: Sicrhau bod gennym broses Gaffael deg ac archwiliadwy, sy'n cynnwys yr holl Nodweddion Gwarchodedig (Perchenogaeth – yr Adran Gaffael berthnasol, Storfeydd, Ystadau, Rheolwyr Caffael, Rheolwr Fflyd a TGCh)

Beth wnaethom ni

Fe wnaethom gwblhau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer tendrau allweddol e.e. Tendr Hyfforddiant Cymru Gyfan

Fe wnaethom ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sy'n cynnwys agweddau o gydraddoldeb ym mhob un o'u fframweithiau.

Erbyn hyn, rydym wedi alinio polisïau a gweithdrefnau ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, wedi ffurfio Gwasanaeth Caffael Tân ac Achub Cymru rhithwir, sydd wedi arwain at rannu arfer gorau.

Yn ogystal, fe wnaethom baratoi Strategaeth Caffael Cymru Gyfan ddiwygiedig, sy'n cyfeirio'n benodol at faterion yn ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Beth rydym ni'n dal i fwriadu ei wneud

Ehangu nifer yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb a gynhelir ar gyfer ymarferion tendro. Fe fydd AEG yn dod yn fandadol ar gyfer unrhyw bryniant dros £10,000 yn y lle cyntaf, a rhagwelir y bydd yn rhaeadru ymhellach maes o law. Yn unol â hyn, bydd yr hyfforddiant priodol yn cael ei gyflwyno i bawb sy'n awdurdodi'r fath bryniadau.

Beth sydd o'n blaenau

Tra ein bod yn medru adrodd am nifer o gynlluniau a gwaith sydd ar y gweill, mae'n dal i fod yn anodd mesur y gwahaniaeth mae'r rhain yn gwneud i ddefnyddwyr gwasanaethau. Gyda hyn mewn golwg, un o feysydd ffocws y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod adrodd nesaf fydd mynd ati i gasglu atborth ystyrlon yn ffurfiol, a bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi a'u defnyddio i sbarduno gwelliannau yn y dyfodol.

Rydym yn gobeithio eich bod yn ystyried yr adroddiad hwn yn addysgiadol. Os ydych chi eisiau rhoi atborth, neu os hoffech wneud cais am gopi o'r adroddiad ar fformat arall, yna cysylltwch â Phennaeth Datblygu'r Gwasanaeth, Mr Kevin Jones:

e-bost - k.jones@mawwfire.gov.uk

Trwy'r post:

Cyfarwyddwr Datblygu

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Heol Llwyn Pisgwydd

Caerfyrddin

SA31 1SP

Data Staff GTACGC (fel ar yr 31ain o Fawrth 2015)

Rhyw (Staff Presennol)	
Benywod	179
Gwrywod	1184

Anabledd (wedi'i ddatgan) (Staff Presennol)	
Benywod	7
Gwrywod	35

Oed (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
16-24	13	94
25-35	54	308
36–45	60	368
46-55	48	348
56-65	0	64
66+	4	2

Hil / Ethnigrwydd (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Tsieineaidd	0	1
Gwyn ac Asiaidd	0	1
Gwyn a Du Caribïaidd	0	0
Bangladeshaidd	1	1
Indiaidd	0	2
Gwyn Prydeinig	165	1158
Gwyn Arall	0	7
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell gen i beidio dweud	13	14

Crefydd neu Gredo (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Cristion	53	410
Islamaidd	0	1
Arall	0	5
Bwdhydd	0	0
Sikh	0	0
Dim	43	274
Gwell gen i beidio dweud	82	494

Statws Priodasol (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Priod	85	644
Sengl	63	448
Wedi ysgaru	20	65
Gweddw	3	1
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	1	0
Arall	1	17
Gwell gen i beidio dweud	7	9

Rhywedd yr un fath â'r geni (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Ydi	138	818
Nac Ydi	0	0
Gwell gen i beidio dweud	41	366

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Ydw	4	D/Y/G
Nac Ydw	137	D/Y/G
Gwell gen i beidio dweud	38	D/Y/G

Cyfeiriadedd Rhywiol (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Deurywiol	12	0
Hoyw / Lesbiad	2	1
Heterorywiol	165	637
Trawsryweddol	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	546

DATA STAFF GTACGC yn ôl Lefel y Rheolwyr (fel ar yr 31ain o Fawrth 2015)

Cyfanswm Staff		Rheolwr Strategol	Rheolwr Canol	Rheolwr Arolygol	Arall
	Benywod	1	30	58	90
	Gwrywod	7	90	404	681
System Dyletswydd					
SDLlA	Benywod	0	2	7	14
	Gwrywod	6	63	137	144
Canolfan Reoli	Benywod	0	4	4	13
	Gwrywod	0	0	6	6
Cymorth	Benywod	1	24	45	41
	Gwrywod	1	27	45	8
Ar Alwad	Benywod	0	0	2	22
	Gwrywod	0	0	216	523

DATA RECRIWTIO STAFF CYMORTH GTACGC (2014/15)

NODWEDD	CYFANSWM Y CEISIADAU	LLWYDDIANNUS
GWRYWOD	154	11
BENYWOD	243	30
TRAWSRYWEDDOL	0	0
DAN 18	0	0
18-24	79	10
25-40	153	19
41-59	146	12
60+	8	0
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	11	0
WEDI COFRESTRU'N ANABL	24	3
HEB GOFRESTRU'N ANABL	360	38
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	13	0
LLEIAFRIF ETHNIG	13	2
GWYN	374	39
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	10	0
CATHOLIG	5	1
CRISTION	126	11
HINDŴ	2	0
MWSLIM	0	17
DIM	105	0
AGNOSTIG	0	12
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	159	
DEURYWIOL	3	0
HOYW	1	0
HETERORYWIOL	354	39
LESBIAD	2	0
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	37	2
LEFEL 1 CYMRAEG	136	18
LEFEL 2 CYMRAEG	137	11
LEFEL 3 CYMRAEG	13	0
LEFEL 4 CYMRAEG	44	3
LEFEL 5 CYMRAEG	45	7
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	22	2

DATA RECRIWTIO AR ALWAD GTACGC (2014/15)

NODWEDD	CYFANSWM Y CEISIADAU	LLWYDDIANNUS
GWRYWOD	276	55
BENYWOD	19	0
TRAWSRYWEDDOL	0	0
18-24	135	26
25-35	125	26
36-45	22	2
46-55	9	1
56-65	4	0
66+	0	0
WEDI COFRESTRU'N ANABL	0	0
HEB GOFRESTRU'N ANABL	294	55
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	1	0
LLEIAFRIF ETHNIG	11	0
GWYN	283	55
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	1	0
BWDHYDD	0	0
CRISTION	121	24
HINDŴ	0	0
MWSLIM	1	0
DIM	149	26
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	22	5
ARALL	2	0
DEURYWIOL	1	0
HOYW / LESBIAD	4	0
HETERORYWIOL	279	52
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	4	2
LEFEL 0 CYMRAEG	139	9
LEFEL 1 CYMRAEG	68	31
LEFEL 2 CYMRAEG	21	3
LEFEL 3 CYMRAEG	20	4
LEFEL 4 CYMRAEG	10	1
LEFEL 5 CYMRAEG	36	7
GWELL GEN I BEIDIO DWEUD	1	0

DATA DYRCHAFIADAU GTACGC (2014/15)

Rhyw	
Benywod	8
Gwrywod	23

Anabledd (wedi'i ddatgan)	
Benywod	0
Gwrywod	0

Oed	Benywod	Gwrywod
16-24	0	0
25-35	3	3
36–45	3	11
46-55	2	8
56-65	0	1
66+	0	0

Hil / Ethnigrwydd	Benywod	Gwrywod
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribïaidd	0	0
Bangladeshaidd	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	8	23
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	0

Crefydd neu Gredo	Benywod	Gwrywod
Cristion	4	9
Islamaidd	0	0
Arall	0	0
Bwdhydd	0	0
Sikh	0	0
Dim	2	7
Gwell gen i beidio dweud	2	7

Statws Priodasol	Benywod	Gwrywod
Priod	1	19
Sengl	1	0
Wedi ysgaru	2	4
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	

Rhywedd yr un fath â'r geni	Benywod	Gwrywod
Ydi	8	20
Nac Ydi	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	3

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Ydw	0	D/Y/G
Nac Ydw	8	D/Y/G
Gwell gen i beidio dweud	0	D/Y/G

Cyfeiriadedd Rhywiol	Benywod	Gwrywod
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiad	0	0
Heterorywiol	8	23
Trawsryweddol	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	0

DATA TROSGLWYDDO RÔL GTACGC (2014/15)

Rhyw	
Benywod	2
Gwrywod	27

Anabledd (wedi'i ddatgan)	
Benywod	0
Gwrywod	1

Oed	Benywod	Gwrywod
16-24	0	0
25-35	0	1
36–45	1	11
46-55	1	13
56-65	0	2
66+	0	0

Hil / Ethnigrwydd	Benywod	Gwrywod
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribïaidd	0	0
Bangladeshaidd	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	2	27
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	0

Crefydd neu Gredo	Benywod	Gwrywod
Cristion	2	12
Islamaidd	0	0
Arall	0	0
Bwdhydd	0	0
Sikh	0	0
Dim	0	5
Gwell gen i beidio dweud	0	10

Statws Priodasol	Benywod	Gwrywod
Priod	2	17
Sengl	0	5
Wedi ysgaru	0	3
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	2
Gwell gen i beidio dweud	0	0

Rhywedd yr un fath â'r geni	Benywod	Gwrywod
Ydi	2	19
Nac Ydi	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	8

Beichiogrwydd a Mamolaeth	Benywod	Gwrywod
Ydw	0	D/Y/G
Nac Ydw	2	D/Y/G
Gwell gen i beidio dweud	0	D/Y/G

Cyfeiriadedd Rhywiol	Benywod	Gwrywod
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiad	0	0
Heterorywiol	2	19
Trawsryweddol	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	8

Data Ymadawyr GTACGC (fel ar yr 31ain o Fawrth 2015)

Rhyw (Wedi Gorffen Gweithio)	
Benywod	14
Gwrywod	37

Anabledd (wedi'i ddatgan) (Wedi Gorffen Gweithio)	
Benywod	0
Gwrywod	0

Oed (Wedi Gorffen Gweithio)	Benywod	Gwrywod
16-24	2	1
25-35	3	4
36–45	1	3
46-55	6	24
56-65	2	5
66+	0	0

Hil / Ethnigrwydd (Wedi Gorffen Gweithio)	Benywod	Gwrywod
Tsieineaidd	0	0
Gwyn ac Asiaidd	0	0
Gwyn a Du Caribïaidd	0	1
Bangladeshaidd	0	0
Indiaidd	0	0
Gwyn Prydeinig	14	36
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd a Gwyn	0	0
Cymysg Arall	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	0

Crefydd neu Gredo (Wedi Gorffen Gweithio)	Benywod	Gwrywod
Cristion	0	0
Islamaidd	0	0
Arall	0	0
Bwdhydd	0	0
Sikh	0	0
Dim	0	0
Gwell gen i beidio dweud	14	37

Statws Priodasol (Wedi Gorffen Gweithio)	Benywod	Gwrywod
Priod	7	28
Sengl	7	8
Wedi ysgaru	0	1
Gweddw	0	0
Partneriaeth Sifil	0	0
Wedi gwahanu	0	0
Arall	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	0

Rhywedd yr un fath â'r geni (Wedi Gorffen Gweithio)	Benywod	Gwrywod
Ydi	0	0
Nac Ydi	0	0
Gwell gen i beidio dweud	14	37

Beichiogrwydd a Mamolaeth (Staff Presennol)	Benywod	Gwrywod
Ydw	0	D/Y/G
Nac Ydw	14	D/Y/G
Gwell gen i beidio dweud	0	D/Y/G

Cyfeiriadedd Rhywiol (Wedi Gorffen Gweithio)	Benywod	Gwrywod
Deurywiol	0	0
Hoyw / Lesbiad	0	0
Heterorywiol	14	37
Trawsryweddol	0	0
Gwell gen i beidio dweud	0	0

Wedi Gorffen Gweithio	Benywod	Gwrywod
Ymddeoliad	3	30
Wedi Marw	0	0
Afiechyd	0	1
Ymddiswyddiad	9	6
Diswyddiad	0	0
Contract wedi dod i ben	2	0

Data Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref (HFSC) 01-04-14 i 31-03-15 (Cyfanswm o 20,932 o Archwiliadau HFSC)

Yn seiliedig ar yr ymatebion a goladwyd i gwestiynau perthynol i risg, cafwyd y canlyniadau canlynol:

- Byw ar eu pennau eu hunain 7440
- Defnyddwyr Ocsigen 731
- Angen Cymorth i Ddianc 3557
- Dioddefwr Llosgi Bwriadol yn y Cartref 177
- Yfed Alcohol yn rheolaidd a/neu'n cymryd sylweddau adloniant 852
- Cymryd cyffuriau ar bresgripsiwn yn rheolaidd sy'n effeithio ar lefelau effrogarwch 2421
- Dim yn byw mewn llety addas 1202
- Profiad o broblemau iechyd meddwl h.y. problemau gyda'r cof, gorbryder 2080
- Profiad o broblemau'n ymwneud â'r golwg, y clyw neu symudedd 5976
- Dioddef o unrhyw broblemau corfforol eraill h.y. asma, problemau gyda'r galon 5553
- O oed pensiwn 10084
- Rhieni Sengl 1386
- Ysmygwyr 4422

Yn y gorffennol mae'r Gwasanaeth, ynghyd â llawer o Wasanaethau Tân ac Achub eraill, wedi canolbwyntio ei weithgareddau Diogelwch yn y Gymuned ar y bobl hynny yr ystyrir eu bod fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, heb ystyried unrhyw Nodweddion Gwarchodedig. Y prif ysgogydd oedd dod o hyd i'r rhai hynny yr ystyrir eu bod fwyaf mewn perygl. Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi bod yn canolbwyntio ar weithio gydag Asiantaethau eraill, i adnabod pobl agored i niwed fel ffactor allweddol wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y bobl hynny sydd mewn angen, neu mewn perygl, ac mae angen gwneud mwy o waith i adnabod unrhyw Nodweddion Gwarchodedig oddi fewn i gategori cyffredinol pobl sydd mewn perygl.

Tra bod y data hwn yn ymwneud ag Oedran ac Anabledd, yn rhai achosion nid yw ar hyn o bryd yn cynnig dadansoddiad ar sail Nodweddion Gwarchodedig, ac nid yw data arall sy'n berthynol i'r gwasanaeth ar gael ar y fformat hwnnw, fodd bynnag, fel y nodwyd ym mhrif gynnwys yr adroddiad, yn ddiweddar fe wnaeth y Gwasanaeth gyflwyno Holiadur Cyfleoedd Cyfartal, a byddwn yn gofyn i ddeiliaid tai i gwblhau'r holiadur wedi i ni gynnal Archwiliad HFSC, ac yna bydd gofyn iddynt i'w ddychwelyd yn y post i'r Gwasanaeth. Bwriad yr holiadur hwn yw casglu data ar y Nodweddion Gwarchodedig, ac rydym yn gobeithio bydd y data yma'n goleuo adroddiadau yn y dyfodol.

Data Ymgysylltu 2014/2015

Cafodd y data isod ei goladu mewn amryw o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn ystod 2014/15. Ar sawl achlysur, er gwaethaf ein hymdrechion gorau, roedd yn well gan unigolion i beidio â darparu gwybodaeth ar un neu fwy o'r cwestiynau.

Fodd bynnag, mae mecanwaith i gasglu data safonol ar y Nodweddion Gwarchodedig wedi cael ei gyflwyno ar gyfer 2015/16, er mwyn mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol.

Rhyw

Atebodd cyfanswm o 402 o'r ymatebwyr y cwestiwn ar Ryw:-

Rhyw	
Benywod	152
Gwrywod	236
Gwell gen i beidio dweud	14

Ystod Oedran

Nid yw'r ystod oedran a ddefnyddir mewn ymyriadau yn safonol bob amser. Aethpwyd i'r afael â hyn ar gyfer y dyfodol.

Atebodd cyfanswm o 402 o'r ymatebwyr y cwestiwn ar Ystod Oedran:-

Ystod Oedran	
Dan 16	248
17 – 25	82
18 – 24	1
25 – 44	24
45 – 60	21
61 – 75	4
Dros 76	0
Gwell gen i beidio dweud	22

Iaith Gyntaf

Yr opsiynau sydd ar gael yw Cymraeg, Saesneg ac Arall ar gyfer y cwestiwn safonol hwn.

Atebodd cyfanswm o 283 o'r ymatebwyr y cwestiwn ar eu Hiaith Gyntaf:-

Iaith Gyntaf	
Saesneg	251
Arall	4
Gwell gen i beidio dweud	25
Cymraeg	27

Ethnigrwydd

Atebodd cyfanswm o 298 o’r ymatebwyr y cwestiwn ar Ethnigrwydd:-

Ethnigrwydd	
Asiaidd – Arall	1
Asiaidd – Pacistanaidd	0
Du – Prydeinig	0
Tsieineaidd	0
Cymysg – Arall	0
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	0
Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd	0
Gwell gen i beidio dweud	53
Gwyn – Prydeinig	238
Gwyn – Gwyddelig	1
Gwyn – Arall	5

Anabledd

Atebodd cyfanswm o 291 o’r ymatebwyr y cwestiwn ar Anabledd:-

Anabledd	
Nam ar y clyw	0
Anawsterau Dysgu (e.e. dyslecsia)	17
Salwch Meddwl	0
Problemau Symudedd	0
Mwy nag un o’r rhain	0
Dim	212
Arall	1
Gwell gen i beidio dweud	61
Nam ar y golwg	0

Crefydd / Credo

Atebodd cyfanswm o 255 o’r ymatebwyr y cwestiwn ar Grefydd / Credo:-

Crefydd / Credo	
Anffyddiwr	3
Cristion	10
Hindŵ	0
Islamaidd	1
Dim	166
Gwell gen i beidio dweud	75

Cyfeiriadedd Rhywiol

Atebodd cyfanswm o 37 o’r ymatebwyr y cwestiwn ar Gyfeiriadedd Rhywiol:-

Cyfeiriadedd Rhywiol	
Deurywiol	3
Hoyw	8
Heterorywiol	10
Lesbiad	1
Gwell gen i beidio dweud	15
Trawsryweddol	0
Trawsrywiol	0

Data a Gasglwyd ar System Cofnodi Digwyddiadau'r Gwasanaeth

Oedran y Dioddefwr	Cyfanswm
<16	236
17 – 25	358
26 – 40	408
41 – 55	372
56 – 70	478
70 +	748
Oedran yn anhysbys	363
Prif Gyfanswm	**2943**

Rhyw	Cyfanswm
Benywod	1358
Gwrywod	1556
Anhysbys	24
Heb Nodi	5
Prif Gyfanswm	**2943**

Ethnigrwydd	Cyfanswm
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Indiaidd	11
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Asiaidd Arall	7
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – Pacistanaidd	9
Du neu Ddu Prydeinig – Affricanaidd	2
Du neu Ddu Prydeinig – Caribïaidd	1
Du neu Ddu Prydeinig – Du Arall	1
Tsieineaidd	6
Cymysg – Gwyn ac Asiaidd	1
Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd	1
Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd	2
Anhysbys / heb nodi	84
Gwyn – Prydeinig	2755
Gwyn – Gwyddelig	17
Gwyn – Gwyn Arall	46
Prif Gyfanswm	**2943**